# eiriolaeth

## Y Rhaglen Edau Euraidd

Galluogi barn, dymuniadau a theimladau

**"Mae gwasanaethau eiriolaeth yn sylfaenol i gynorthwyo pobl i ymgysylltu'n weithredol a chyfranogi yn natblygiad eu canlyniadau lles eu hunain"**

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cymru 2014, Rhan 10 Cod Ymarfer (Eiriolaeth)

### Diogelu hawliau:

- **Perchir fy hawliau**
- **Mae gennyf lais a rheolaeth**
- **Rwyf ynghlwm mewn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio fy mywyd**
- **Ystyrir fy amgylchiadau unigol**
- **Gallaf siarad drosof fy hun neu gael rywun a all wneud ar fy rhan a**
- **Rwy'n cael gofal drwy gyfrwng y Gymraeg os wyf ei angen.**

Mae Rhaglen Eiriolaeth Edau Aur wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru am 3 blynedd i redeg ar y cyd a chynorthwyo gweithredu Rhan 10 (Eiriolaeth) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014.

Dechreuom y gwaith hwn ar y 1af Ebrill 2016. Ein prif nodau yw:

- Cynorthwyo i gomisiynu eiriolaeth broffesiynol annibynnol drwy ddull cynaliadwy a strategol.
- Gwella argaeledd gwasanaethau eiriolaeth i oedolion ledled Cymru.
- Gwella lles unigolion drwy eiriolaeth a rhoi llais cryfach iddynt.

## Bydd y rhaglen genedlaethol yn:

- Cynorthwyo timau rheoli/comisiynu gofal iechyd a chymdeithasol strategol a gweithwyr proffesiynol rheng flaen i ddeall eu cyfrifoldebau ynghylch eiriolaeth dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles. Bydd yn cydnabod yr amgylchiadau y byddai unigolyn neu sefydliad yn elwa o eiriolaeth, wrth gynllunio canlyniadau lles a chomisiynu gwasanaethau priodol.
- Cynorthwyo datblygiad cynlluniau cynaliadwy ar gyfer cyflwyno gwasanaeth eiriolaeth, gan ei osod yng nghanol gwaith gofal iechyd a chymdeithasol o fewn Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol ledled Cymru.
- Cryfhau gallu darparwyr gofal iechyd a chymdeithasol statudol i ryddhau eu dyletswyddau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, gan roi llais i bobl gyda nodweddion gwarchodol (Deddf Cydraddoldeb) i hysbysu Asesiadau Effaith Cydraddoldeb wrth ddylunio a chyflwyno gwasanaethau gofal iechyd a chymdeithasol. Yn annatod i hyn yw sicrhau cydraddoldeb i'r Gymraeg mewn cynllunio a chyflwyno gwasanaeth (yn unol a'r egwyddor "Cynnig Gweithredol" a amlinellwyd ym "Mwy na Geiriau").
- Gweithio gyda darparwyr gwasanaeth newydd a phresennol i sicrhau eu bod yn barod i dendro prosesau comisiynu eiriolaeth statudol.
- Creu fframwaith ar gyfer cydweithrediad rhwng cyrff statudol a darparwyr gwasanaeth wrth ddefnyddio adnoddau yn fwy effeithlon i gynorthwyo canlyniadau lles.
- Gweithio â grwpiau cynrychioladol defnyddwyr a gofalwyr gwasanaethau posibl i godi ymwybyddiaeth o eiriolaeth yn ei holl ffurfiau, wrth ymarfer rheolaeth dros eu canlyniadau lles.
- Hyrwyddo agweddau positif i welliannau lles a chefnogi gwelliannau i ddiogelu drwy roi llais cryfach i bobl gyda nodweddion gwarchodol.

## Beth a gaf o'r rhaglen?

Ar ddiwedd y rhaglen bydd holl randdeiliaid:

- â gwell dealltwriaeth a gwybodaeth o werth eiriolaeth;
- ag offer cyfathrebu i hyrwyddo'r angen i ddatblygu gwasanaethau eiriolaeth a nodi lle gellir blaenoriaethu eiriolaeth orau;
- yn gallu cymhwyso arfer gorau mewn eiriolaeth fel rhan annatod o fwriadau comisiynu.

## Sut allaf gymryd rhan?

Gellir cysylltu â'r tîm yn y ffyrdd canlynol:


Louise Hughes, Rheolwr Rhaglen
**louise.hughes@agecymru.org.uk**
**01352 706228**

Ffion Jones, Cynorthwyydd Cymorth
**ffion.jones@agecymru.org.uk**
**01352 706228**

E-bost tîm cyffredinol:
**goldenthreadadvocacy@agecymru.org.uk**

**www.agecymru.org.uk/advocacy**

**/agecymru**

**@AgeCymru**



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

diverse cymru
Promoting equality for all
Hyrwyddo cydraddoldeb i bawb

age connects wales.

age Cymru
Creu Cymru oed gyfeillgar
Creating an age friendly Wales



Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig rhif 1128436. Cwmni cyfyngedig trwy warant wedi ei gofestru yn Lloegr ac yng Nghymru rhif 6837284.
Cyfeiriad ein swyddfa gofrestredig: Tŷ John Pathy, 13/14 Cwrt Neptune, Ffordd Blaen y Gad, Caerdydd CF24 5PJ.